Polisi Absenoldeb Rhiant, Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig Athrofa Padarn Sant (APS)

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfennau

Teitl y Ddogfen:	**Polisi Absenoldeb Rhiant, Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig APS**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, APS
Rhif y Fersiwn:	2
Statws y Ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad cymeradwyo:	4 Awst 2025
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant (Fersiwn terfynol wedi ei gymeradwyo gan Weithred y Cadeirydd)
Dyddiad gweithredu:	Ar unwaith
Dyddiad Adolygu:	Ionawr 2028
Fersiwn a Ddisodlwyd:	1
Dogfennau Cysylltiedig:	

Hanes y Ddogfen:

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar y diwygiadau
2	Mehefin 2025	Kathryn Delderfield	Mân ddiwygiadau i derminoleg a theitlau

Polisi Absenoldeb Rhiant, Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig APS

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Hysbysu ynghylch beichiogrwydd
4. Absenoldeb Mamolaeth
5. Grantiau yn ystod absenoldeb mamolaeth
    5.1 Ymgeiswyr Llawn Amser
    5.2 Ymgeiswyr Rhan Amser
    5.3 Ailddechrau'r Hyfforddiant
    5.4 Hyd yr Hyfforddiant
    5.5 Cyswllt yn ystod Absenoldeb Mamolaeth
    5.6 Genedigaethau Marw a Chamesgoriadau
6. Absenoldeb Rhiant
7. Absenoldeb Rhiant a Rennir
    7.1 Lle bydd y naill riant a'r llall yn ymgeiswyr
    7.2 Lle bo partner cyflogedig yr ymgeisydd yn rhoi genedigaeth
8. Absenoldeb Mabwysiadu
9. Defnyddio mam fenthyg neu fod yn fam fenthyg

2. Cyflwyniad

Er nad yw'r ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth wedi'u, ac felly nid oes ganddynt hawliau cyflogaeth, mae gan Athrofa Padarn Sant gyfrifoldeb moesol i sicrhau bod arferion teg, anwahaniaethol ar waith ar gyfer eu hyfforddiant cychwynnol. Mae'r Athrofa eisiau

sicrhau bod ganddi ymgeiswyr o safon o bob oedran, a cheisio sicrhau fo darpariaeth ar waith ar gyfer y rheini sy'n bwriadu dod yn rhieni, er mwyn tynnu unrhyw rwystr posibl i'r hyfforddiant. Mae'r polisi hwn yn disgrifio'r arferion ar gyfer y rheini sy'n dod yn rhiant yn ystod eu hyfforddiant cychwynnol. Mae'r ddarpariaeth ariannol yn amrywio gan fod yr ymgeiswyr yn derbyn grant yn hytrach na chyflog.

3. Hysbysu ynghylch beichiogrwydd

Anogir ymgeiswyr sy'n feichiog i hysbysu eu tiwtor personol cyn gynted â phosibl. Nid yw'r ddarpariaeth mamolaeth yn newid gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Fodd bynnag, bydd y trefniadau penodol sydd angen eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau y gall ymgeisydd gwblhau ei hyfforddiant yn dibynnu ar ffactorau megis: faint o absenoldeb mamolaeth a gymerir, ar ba adeg o'r flwyddyn, a'r rhaglen academaidd y mae'r ymgeisydd yn ei dilyn.

Mae cyfathrebu'n gynnar yn golygu y gellir gwneud trefniadau ar gyfer asesiad risg mamolaeth ar gam cynnar. Anogir yr ymgeiswyr hefyd i hysbysu eu Cyfarwyddwr Ordinandiaid Esgobaethol cyn gynted â phosibl oherwydd gall absenoldeb mamolaeth effeithio ar hyd yr hyfforddiant a'r dyddiad trwyddedu, a bydd yn caniatáu i'r esgobaeth gefnogi'r ymgeisydd mewn modd priodol.

Bydd angen i ymgeisydd beichiog ddarparu tystysgrif mamolaeth (**MAT B1)** i'w tiwtor personol. Gellir cael un o'r rhain gan feddyg teulu neu fydwraig **ar ôl 20 wythnos o feichiogrwydd.**

4. Absenoldeb Mamolaeth

Bydd ymgeiswyr sy'n feichiog yn gallu cymryd amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiadau meddygol sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd.

Gall ymgeiswyr sy'n rhoi genedigaeth gymryd hyd at **52 wythnos** o absenoldeb mamolaeth.

Gall ymgeisydd ddewis dechrau eu habsenoldeb mamolaeth **o'r 11eg wythnos** cyn dyddiad disgwyliedig genedigaeth y plentyn. Os bydd y plentyn yn cael ei eni'n gynt na hynny, bydd yr absenoldeb mamolaeth yn dechrau ar ddyddiad genedigaeth y plentyn.

Dylai'r ymgeisydd hysbysu eu tiwtor personol ynghylch pryd y maent yn bwriadu cymryd yr absenoldeb mamolaeth **o leiaf 15 wythnos cyn** dyddiad disgwyliedig genedigaeth y plentyn. Gall ymgeisydd newid eu meddwl ar ôl y dyddiad hwn, **gan roi 28 diwrnod o rybudd.**

Gall ymgeiswyr beichiog ddewis parhau i hyfforddi nes mor agos â'r wythnos y mae disgwyl i'r baban gael ei eni os dymunant, cyhyd â'u bod yn gallu cymryd rhan lawn. Os teimlir bod iechyd yr ymgeisydd neu iechyd y baban heb ei eni yn dioddef o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn parhau i weithio, yna mae'n bosibl i Athrofa Padarn Sant yn gofyn i'r ymgeisydd ddarparu cadarnhad gan eu doctor ei bod yn ffit i barhau a'u hyfforddiant.

Os bydd y baban yn cael ei eni'n gynnar, dylai'r ymgeisydd hysbysu eu tiwtor personol. cyn gynted â'i bod yn rhesymol ymarferol a darparu tystysgrif **MATB2,** y gellir ei chael gan feddyg teulu neu fydwraig.

Er bod yr uchod wedi'i lunio mewn perthynas â'ch dewisiadau a'ch goblygiadau chi, byddem yn eich annog i drafod y pethau hyn yn agored gyda'ch tiwtor personol, fel y gallwn eich cynorthwyo i feddwl am y gwahanol opsiynau a'ch cefnogi wrth ichi wneud penderfyniadau.

Os nad yw ymgeisydd yn dymuno ailddechrau'r hyfforddiant, yna dylent drafod hyn gyda'u tiwtor personol Bydd y tiwtor personol yn cyfeirio'r mater i'r Deon ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion bydd yn ymgynghori a'r Cyfarwyddwr Ordinandiaid Esgobaethol.

Bydd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn astudio rhaglen achrededig fel rhan o'u hyfforddiant (fel Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd). Mae'n debygol y bydd angen i ymgeisydd sy'n feichiog wneud cais am doriad o'u hastudiaethau mewn perthynas â'u gwaith academaidd. Mae'r prosesau ar gyfer hyn yn dibynnu ar y rhaglen ac felly bydd y tiwtor personol yn gweithio â'r ymgeisydd â'r Gofrestrfa i hwyluso'r broses Toriad o'u Hastudiaethau perthnasol. Bydd angen i'r ymgeisydd ddilyn y broses gywir ar gyfer gwneud cais am doriad o'u hastudiaethau.

5. Grantiau yn ystod absenoldeb mamolaeth

5.1 Ymgeiswyr Llawn Amser

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn gwneud darpariaeth ariannol ar gyfer mamolaeth ar ffurf grantiau.

Bydd ymgeiswyr sy'n beichiogi **yn parhau** i dderbyn hyfforddiant a grant tai am **39 wythnos.** Ar enedigaeth y plentyn bydd y grant yn cael ei ailasesu i gynnwys y grant plant. Bydd y grant yn dod **i ben ar ôl 39 wythnos** o absenoldeb mamolaeth. Os ydych yn dymuno hynny, gallwch gymryd **13 wythnos** yn ychwanegol o absenoldeb mamolaeth i'w wneud yn gyfanswm o 52 wythnos, er y bydd hwn **yn ddi-dâl**.

Bydd unrhyw gostau ar gyfer cydran academaidd yr hyfforddiant yn parhau i gael eu talu gan Athrofa Sant Padarn, cyhyd ag y bo'r ymgeisydd yn dilyn y prosesau cywir ar gyfer toriad o'u hastudiaethau.

5.2 Ymgeiswyr Rhan Amser

Diben y grant rhan amser yw talu am gostau hyfforddiant achlysurol, ac felly ni thelir unrhyw grant yn ystod absenoldeb mamolaeth.

Bydd unrhyw gostau ar gyfer cydran academaidd yr hyfforddiant yn parhau i gael eu talu gan Athrofa Sant Padarn, cyhyd â bod yr ymgeisydd yn dilyn y prosesau priodol ar gyfer toriad o'u hastudiaethau.

5.3 Ailddechrau'r Hyfforddiant

Ni all unrhyw ymgeisydd ailddechrau'r hyfforddiant yn ystod y pythefnos cyntaf ar ôl rhoi genedigaeth.

Pythefnos cyn i'r ymgeisydd ddychwelyd yn sgil absenoldeb mamolaeth, byddant yn cael eu gwahodd i gwrdd â'u tiwtor personol i drafod y broses o ailddechrau'r hyfforddiant.

Os bydd ymgeisydd yn penderfynu ailddechrau'r hyfforddiant cyn diwedd eu habsenoldeb mamolaeth, rhaid iddynt wneud cais ysgrifenedig **o leiaf 28 diwrnod cyn** y dyddiad y disgwylir iddynt ddychwelyd i'w Tiwtor Personol. Bydd y tiwtor yn ymgynghori â'r Deon i drafod os yw'n ddoeth cyn gwneud penderfyniad. Bydd pob penderfyniad yn cael ei gyfathrebu'n uniongyrchol i'r ymgeisydd ac mewn achosion lle nad yw'n ddichonadwy i'r ymgeisydd ailddechrau'r hyfforddiant ar y dyddiad y maent wedi'i ddewis, bydd y rheswm pam na allant wneud hynny yn cael ei egluro'n llawn.

5.4 Hyd yr Hyfforddiant

Nid yw'r math o hyfforddiant y mae ymgeisydd yn ei ddilyn yn cael ei effeithio gan famolaeth. Fodd bynnag, mae angen cwblhau'r rhaglen Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig cyn y bydd yr ymgeisydd yn drwyddedig ar gyfer y weinidogaeth ac felly mae'n bosibl y bydd y dyddiad trwyddedu'n cael ei effeithio. Dylai'r ymgeisydd wybod cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch hyd yr

absenoldeb mamolaeth pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar hyd yr hyfforddiant. Dylid cael trafodaeth ar effaith cymryd cyfnod mamolaeth â staff perthnasol yr Athrofa a esgobaeth yr ymgeisydd cyn gynted â phosibl ar ôl i'r ymgeisydd hysbysu Athrofa Padarn Sant eu bod yn feichiog. Bydd angen i'w Hesgob awdurdodi unrhyw newid wedi hynny i hyd yr hyfforddiant.

5.5 Cyswllt yn ystod Absenoldeb Mamolaeth

Gall fod yn ddefnyddiol i ymgeisydd allu cadw mewn cysylltiad yn ystod eu habsenoldeb mamolaeth. Os yw ymgeisydd yn meddwl y byddai'n fuddiol iddynt, yna dylent siarad gyda'r Deon Hyfforddiant Cychwynnol Gweinidogion ynghylch mynychu ambell ddiwrnod hyfforddi. Dylai'r ymgeiswyr deimlo'n rhydd i gysylltu â'u tiwtor personol i gadw mewn cysylltiad yn ystod eu habsenoldeb.

5.6 Genedigaethau Marw a Chamesgoriadau

Gobeithir yn ddiffuant y bydd pob dim yn mynd yn dda gyda'r beichiogrwydd ond, o bryd i'w gilydd, bydd beichiogrwydd yn diweddu mewn genedigaeth marw neu gamesgoriad, gwaetha'r modd. Pe bai hyn yn digwydd, anogir ymgeiswyr gysylltu â'u tiwtor personol ar y cyfle cyntaf fel y gall Athrofa Sant Padarn drefnu cymorth bugeiliol.

Anogir partneriaid sydd wedi profi genedigaeth marw neu gamesgoriad yn cael eu hannog yn gryf i gysylltu â'u tiwtor personol am gefnogaeth bugeiliol.

6. Absenoldeb Rhiant

Gall ymgeisydd y mae eu partner yn rhoi genedigaeth gymryd **pythefnos** o absenoldeb rhiant. Rhaid cymryd yr absenoldeb **o fewn 8 wythnos** yn dilyn genedigaeth y plentyn. Ni fyddai'r cyfnod hwn o bythefnos yn effeithio ar y cynnydd hyfforddi, oni bai bod dyddiad cyflwyno aseiniad yn dod o fewn y cyfnod hwnnw. Os bydd hyn yn digwydd, dylai'r ymgeisydd gysylltu â'u Tiwtor Personol. Dylai'r ymgeisydd hysbysu eu tiwtor personol ynghylch y dyddiad pryd y disgwylir i'r plentyn gael ei eni **4 wythnos o flaen llaw**. Rhaid cymryd yr absenoldeb tadolaeth gyda'i gilydd. Unwaith y bydd y babi wedi'i eni, dylai'r ymgeisydd hysbysu'r tiwtor personol pryd yr hoffent gymryd yr absenoldeb tadolaeth cyn gynted â phosibl.

7. Absenoldeb Rhiant a Rennir

7.1 Lle bydd y naill riant a'r llall yn ymgeiswyr

Rhaid i'r ymgeisydd sy'n rhoi genedigaeth gymryd **pythefnos ar ôl genedigaeth** y baban fel absenoldeb. Mae ambell drefniant amgen ar gyfer Absenoldeb Rhiant a Rennir pan fydd y naill riant a'r llall yn ymgeiswyr:

- Gall yr ymgeiswyr ddewis pa bartner sy'n cymryd gweddill yr absenoldeb mamolaeth. Dylai'r ymgeiswyr hysbysu'r Deon Hyfforddiant Cychwynnol Gweinidogion cyn gynted â phosibl, a bydd y Deon a'u Cyfarwyddwr Ordinandiaid Esgobaethol yn trafod y goblygiadau a'r trefniadau gyda pha bynnag bartner sy'n cymryd yr absenoldeb mamolaeth.
- Mae'n bosibl y gall yr ymgeiswyr gymryd rhan o'r absenoldeb mamolaeth yr un, naill ai gyda'i gilydd neu'n olynol. Er enghraifft, mae'n bosibl yr hoffent gymryd rhan o'r absenoldeb gyda'i gilydd, neu gymryd cyfnod o amser un ar ôl y llall. Mae'n bwysig nodi mai'r **39 wythnos** o absenoldeb y mae'n gymwys i grantiau gael eu talu ar eu cyfer yw'r **cyfanswm ar gyfer y naill bartner a'r llall**; nid yw'n 39 wythnos yr un. Mae'n bosibl y bydd yr angen i sicrhau bod y naill bartner a'r llall yn gallu cwblhau pob agwedd ar eu hyfforddiant yn effeithio ar ba mor hyblyg y gall y trefniadau hyn fod. Dylai'r ymgeiswyr sy'n dymuno archwilio'r posibilrwydd o absenoldeb rhiant a rennir siarad â'r Deon Hyfforddiant Cychwynnol Gweinidogion ar y cyfle cyntaf posibl fel y gellir gwneud asesiad o'r effaith ar eu hyfforddiant.

7.2 Lle bo partner cyflogedig yr ymgeisydd yn rhoi genedigaeth

Mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer rhannu absenoldeb rhieni ddim ond yn berthnasol os yw'r ddau rhiant wedi eu cyflogi. Nid yw'n berthnasol lle fo un rhiant yn ymgeisydd. Os yw ymgeisydd â phriod sy'n gyflogedig ac newydd rhoi genedigaeth ac eisiau rhannu'r absenoldeb rhieni bydd hyn yn cael ei drafod achos wrth achos. Bydd angen i'r ymgeisydd drafod hyn gyda'i tiwtor personol ar y cyfle cynharaf.

8. Absenoldeb Mabwysiadu

Mae absenoldeb mabwysiadu yn debyg i raddau helaeth i'r absenoldebau rhiant eraill. Lle bo dau riant, bydd un rhiant yn cymryd rôl y prif fabwysiadwr. Os bydd ymgeisydd yn cymryd rôl y prif fabwysiadwr, gallant **ddechrau**'r absenoldeb mabwysiadu pan fyddant

wedi'u paru â phlentyn/plant **neu 14 diwrnod cyn** y bydd y lleoliad maethu i fabwysiadu yn dechrau. Cydnabyddir bod natur mabwysiadu'n golygu nad yw'n bosibl yn aml rhoi llawer o rybudd cyn dechrau absenoldeb mabwysiadu. Er mwyn helpu i baratoi ar gyfer eu habsenoldeb, mae'n bosibl y bydd yr ymgeisydd yn cael budd o siarad â'u tiwtor personol pan fyddant yn cyrraedd y pwynt lle bydd paru neu leoliad yn debygol o ddigwydd yn fuan.

Unwaith y bydd y prif fabwysiadwr yn dechrau'r absenoldeb mabwysiadu, bydd eu habsenoldeb yn dilyn yr un egwyddorion ag absenoldeb mamolaeth, gan gynnwys y grantiau.

Lle nad yr ymgeisydd yw'r prif fabwysiadwr, maent yn gymwys ar gyfer absenoldeb tadolaeth (waeth beth yw rhyw'r rhiant, gelwir yr absenoldeb ar gyfer y rhiant nad yw'n brif ofalwr yn 'tadolaeth' o hyd). Maent yn gymwys i gael **pythefnos** o absenoldeb, **yn ystod yr 8 wythnos** ar ôl iddynt gael eu paru â phlentyn/plant **neu 14 diwrnod cyn** y bydd y lleoliad maethu i fabwysiadu'n dechrau.

Lle bo'r naill bartner a'r llall yn ymgeiswyr, bydd un yn cymryd rôl y prif fabwysiadwr, a bydd yn gymwys i dderbyn absenoldeb mabwysiadu a bydd y llall yn gymwys i dderbyn absenoldeb tadolaeth.

Mae ymgeiswyr sy'n mabwysiadu yn gymwys i gael Absenoldeb Rhiant a Rennir.

9. Defnyddio mam fenthyg neu fod yn fam fenthyg

Os yw ymgeiswyr yn cael baban drwy fam fenthyg, yna byddant yn cael eu trin yn yr un modd â rhieni sy'n mabwysiadu, gyda'u hawl i absenoldeb yn cychwyn ar y pwynt y byddant yn dod yn gyfrifol am fagwraeth y plentyn/plant.

Dylai unrhyw ymgeisydd sy'n archwilio a ydynt am fod yn fam fenthyg yn ystod eu cyfnod hyfforddi archwilio hyn cyn gynted â phosibl â'u Hesgob.

Gall y trefniadau hyn fod yn gymhleth ac anogir yr ymgeiswyr i siarad naill ai gyda'u tiwtor personol neu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.